

Geiriau

Mae gen i gerdd i'w chanu,
cân a geiriau
i'w rhannu gyda phawb.
Mae gen i stori i'w dweud,
rhyw fynd a dod rhwng 'pwy?' a 'ble?' a 'pam?',
i'w rhoi **ar gof a chadw**.

Er mwyn eu gweld,
mae gen i glust i glywed blas y llun a'r lliwiau,
a llygad dda i deimlo'r ffurf,
i lunio gwedd,
a threfnu'r cyfan oll yn dwt fel seld.

Fe ganaf
am fy mod yn dwlu ar y geiriau'n
dawnsio'n daclus ar y ddalen,
yn mynnu disgyn ar fy nghlyw.

Fe'u dwedaf,
fe'u darllenaf,
am eu bod yn deffro pob un synnwyr,
cyffroi atgofion,
a dangos i mi bod 'na werth mewn byw.

Weithiau,
wedi crwydro,
pan ddychwelaf i'w **hanwesu**,
daw lleisiau newydd, ffres i ddweud eu dweud;
yno, ymhlith pob gair cyfarwydd,
rhwng pob llinell,
mae ystyr newydd nad oedd yno ddydd eu creu.

A weithiau,
o'u gosod rhwng dau glawr,
eu rhoi yn nwylo'r byd,
daw llais gwahanol i'w hawlio ar y ddalen,
a nid yr un yw'r gerdd na'r stori nawr.

Bryd hynny, **gwn** –
a gwn yn iawn –
nad fi sy piau'r geiriau mwy.

ar gof a chadw	to keep for ever
llunio gwedd	to create an image
anwesu	to embrace
gwn	dw i'n gwybod